

# Y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol

## Trosolwg

Mae'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol (COF) £150 miliwn yn bodoli i helpu cymunedau ledled y DU i gymryd perchnogaeth dros asedau sydd mewn perygl o gael eu cau. Bydd yn para tan fis Mawrth 2025.

## Beth yw perchnogaeth gymunedol?

Wrth sôn am ased neu ofod cymunedol, rydyn ni'n golygu'n adeiladau neu'r tir a ddefnyddir er lles neu er budd cymdeithasol y gymuned leol. Mae'r rhain yn cynnwys mannau gwyrdd, llyfrgelloedd, gofodau diwylliannol, cyfleusterau hamdden, canolfannau cymunedol, tafarndai a mwy.

Mae perchnogaeth gymunedol yn rhoi rheolaeth i bobl leol dros yr adeiladau a'r gofodau sydd ag arwyddocâd iddyn nhw ac yn sicrhau bod y gofodau hyn yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n bodloni blaenoriaethau ac anghenion y gymuned leol.


## Pa gyllid sydd ar gael?

### Cyllid cyfalaf

Gallwch wneud cais am hyd at £250,000 i brynu neu brydlesu ased a thalu am gostau adnewyddu. Mewn achosion eithriadol, mae hyd at £1 miliwn o gyllid ar gael gan y Gronfa ar gyfer pob math o asedau ble mae perygl y gallai'r ased gael ei golli.

Mae'n ofynnol i chi gyfrannu 20% o 'arian cyfatebol' tuag at gyfanswm y cyfalaf sydd ei angen. Er enghraifft, os ydych chi am brynu ased am £1,250,000, gallwch wneud cais am grant cyfalaf o £1,000,000 gan y Gronfa, ond rhaid i chi ddod o hyd i'r £250,000 arall o ffynonellau eraill.

Mewn achosion eithriadol, lle mae darparwr cymorth y datblygiad wedi asesu'r prosiect gyda'r angen mwyaf, mae'n bosibl gostwng y gofyniad arian cyfatebol i 10%, gyda'r Gronfa yn cyfrannu'r 90% sy'n weddill. Er enghraifft, os ydych chi



am brynu ased am £250,000, gallwch wneud cais am grant cyfalaf o £225,000 gan y Gronfa a chodi £25,000 eich hun.

## Cyllid refeniw

Mae hyd at £50,000 ar gael i ariannu costau datblygu prosiectau, megis astudiaethau dichonoldeb, neu gostau rhedeg y flwyddyn weithredu gyntaf, megis costau staffio.

Ni all ceisiadau am gyllid refeniw fod yn fwy nag 20% o'ch cais am gyllid cyfalaf neu £50,000, p'un bynnag yw'r lleiaf.

Does dim angen sicrhau arian cyfatebol ar gyfer cyllid refeniw.

## Cymhwysra

Rhaid i bob prosiect gyflawni'r gofynion canlynol:

- **Rydych chi'n sefydliad gwirfoddol a chymunedol corfforedig neu'n gyngor plwyf (neu gyfatebol)**

Mae [strwythurau cyfreithiol](#) cyffredin a ddisgwylir ar gyfer sefydliadau cymunedol yn cynnwys CIOs, SCIOs, Cwmnïau Cydweithredol gan gynnwys Cymdeithasau Buddiannau Cymunedol; Cwmnïau Buddiannau Cymunedol neu gwmnïau nid-er-elw cyfyngedig drwy warant.

Gall ceisiadau anghorfforedig wneud cais yn y cam [Datganiad o Ddiddordeb](#) ond rhaid iddo fod yn sefydliad cymwys cyn gwneud cais yn y cam ymgeisio llawn.

### **Mae'r ased mewn perygl**

Gallai'r perygl fod yn sgil bygythiad i gau, gwerthu, esgeulustod gan y perchennog presennol neu o ganlyniad i weithrediadau anghynaliadwy presennol. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'r perygl a sut y bydd yr ased yn cael ei golli, heb weithredu gan y gymuned.

- **Bydd yr ased yn darparu budd cymunedol hirdymor**

Rhaid i asedau sy'n cael eu cefnogi gan y Gronfa barhau i ddarparu budd cymunedol yn y dyfodol. Gall sefydliadau ddangos hyn drwy eu

diben elusennol a/neu fod â [chlo asedau](#) yn eu dogfennau llywodraethu.

Bydd angen i sefydliadau ddangos sut maen nhw'n ymgysylltu â phobl leol ac yn gweithredu er lles y gymuned gyfan maen nhw'n ei gwasanaethu. Dylai'r elw a wneir o ddefnyddio'r ased gael ei ail-fuddsoddi yn ôl i'r gymuned.

- **Gallwch sicrhau 'arian cyfatebol' ar gyfer eich cais am grant cyfalaf**  
Rhaid i chi sicrhau 'arian cyfatebol' i'r cyllid cyfalaf rydych chi'n gwneud cais amdano gan y Gronfa o ffynonellau eraill. (Gweler yr opsiwn 'Arian cyfatebol' isod am fwy o fanylion)
- **Bydd yr ased yn dod i berchnogaeth gymunedol o fewn 12 mis i gael cynnig cyllid**  
Mae sefydliadau sydd eisoes yn berchen ar eu hased yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa, ar yr amod y byddai'r ased fel arall mewn perygl neu'n cael ei golli gan y gymuned.
- **Bydd yr holl gyllid yn cael ei wario o fewn 12 mis i gael ei gynnig**

Mae gofynion cymhwystra ychwanegol ar gyfer ceisiadau yn ymwneud ag asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd. Gweler [Prosbectws y Gronfa](#) am fanylion llawn y gofynion ychwanegol.

## Opsiynau arian cyfatebol

Gall ffynonellau cymwys o arian cyfatebol gynnwys grantiau, benthyciadau a ffynonellau 'heb fod yn arian parod', megis rhoddion o nwyddau a gwasanaethau perthnasol neu werth gostyngiad ar lesddaliad neu rydd-ddaliad hirdymor gan gorff cyhoeddus, er enghraifft, fel rhan o [drosglwyddiad asedau](#).

Nid yw Rhodd Cymorth ar roddion yn ffynhonnell gymwys o arian cyfatebol. Nid yw gwerth amser gwirfoddol yn ffynhonnell gymwys chwaith.

Ni fydd unrhyw gostau ynghlwm wrth gyflwyno eich cais i'r Gronfa cyn y dyddiad cau yn cyfrif fel arian cyfatebol cymwys.

## Y broses ymgeisio

- 1. Cyflwyno ffurflen Datganiad o Ddiddordeb:** Bydd y platfform Datganiad o Ddiddordeb bob amser ar agor fel y gallwch chi ddatgan eich diddordeb ar unrhyw adeg. Bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) yn asesu a yw eich prosiect yn debygol o basio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cam ymgeisio llawn.
- 2. Os byddwch chi'n llwyddiannus, fe'ch gwahoddir i gyflwyno cais llawn:** Bydd dyddiadau agor a chau'r ffenestri ymgeisio ar gyfer y cam ymgeisio llawn yn cael eu hysbysebu yn y [prosbectws](#).
- 3. Ceisiadau llawn:** Os cewch eich gwahodd i wneud hynny, cyflwynwch eich cais llawn yn ystod y ffenestr a hysbysebir. Bydd angen i chi fod â gwybodaeth benodol ar waith cyn cyflwyno eich cais, megis [cynllun busnes](#). Bydd y cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:
  - a. Achos strategol:** dangos bod yr ased yn wynebu perygl, effaith ei golli ar y gymuned, manteision posibl yn y dyfodol ar gyfer y gymuned a'r cymorth sydd gennych chi yn lleol.
  - b. Achos rheoli:** dangos bod modd cyflawni'r prosiect ac y bydd yr ased yn cael ei gynnal yn gynaliadwy.

Ar gyfer asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd, mae gofynion tystiolaeth ychwanegol yn ymwneud â'r perygl sy'n wynebu'r ased, yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, y gallu i gyflawni'r prosiect a chynaliadwyedd.

Mae manylion llawn am y meini prawf asesu i'w gweld yn y [canllawiau a gyhoeddwyd](#).

- 4. Aros am ateb:** Llywodraeth y DU fydd yn gwneud y penderfyniadau. Efallai y gofynnir i chi am wybodaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod asesu. Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu gwirio cyn rhyddhau unrhyw gyllid. Bydd y Cytundeb Cyllid Grant ffurfiol yn nodi amodau dyfarnu'r cyllid.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu ac yn derbyn adborth.

Gall sefydliadau gyflwyno cais sawl gwaith ar gyfer yr un prosiect, ond maen



nhw'n debygol o gael eu gwrthod os yw'r prosiect yn sylfaenol anaddas. Gallwch hefyd gyflwyno cais am brosiect cwbl newydd sy'n ymwneud ag ased gwahanol.

## Cymorth datblygu

Mae cyngor ar gael i helpu ymgeiswyr gyda'u Datganiadau o Ddiddordeb. Mae cymorth manwl hefyd ar gael i rai sefydliadau, yn seiliedig ar eu hanghenion, ar gyfer datblygu eu cais a'u hachos busnes. Mae cymorth parhaus ar ffurf gweminarau ac adnoddau (drwy wefan My Community) ar gael i ymgeiswyr llwyddiannus a darpar ymgeiswyr y Gronfa.

I gyflwyno unrhyw gwestiwn am y cymorth datblygu, cwblhewch y ffurflen ymholi yn [mycommunity.org.uk/community-ownership-fund](https://mycommunity.org.uk/community-ownership-fund). Os ydych chi'n hyderus am eich prosiect, gallwch fynd yn syth i'r [cam Datganiad o Ddiddordeb](#) nawr.